Cyllid &
Thollau EM

# Credyd Treth Gwaith – help gyda chostau gofal plant

Os ydych yn cael credydau treth, gallech hawlio help ychwanegol gyda chostau gofal plant, os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- rydych yn gyfrifol am blentyn
- rydych yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos (gweler tudalen 3)
- mae'ch darparwr gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy

Darllenwch y daflen hon am ragor o wybodaeth a help i gyfrifo'r hyn y gallwch ei hawlio.

Os byddwch yn dechrau talu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy, a hoffech hawlio help gyda'ch costau, gallwch:

- ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900
- defnyddio Relay UK drwy ddeialu 18001 ac yna 0345 300 3900 (os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn)

I weld ein horiau agor, ewch i www.gov.uk/contact-hmrc

WTC5(2023)

# Cynnwys


**Pwy sy'n cael hawlio?** 3
**Cyfrifoldeb dros blentyn** 3
**Oriau gwaith** 3
Os ydych yn absennol o'r gwaith dros dro 4
Os ydych yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch 4
Os ydych ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu ar y cyd i rieni 4
Os ydych yn absennol o ganlyniad i streic neu wedi'ch gwahardd o'r gwaith 5
**Darparwyr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy** 5
Eich cyfrifoldeb wrth hawlio costau gofal plant 5
Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy: Cymru 5
Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy: Lloegr 6
Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy: Yr Alban 7
Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy: Gogledd Iwerddon a Gweision y Goron 8
**Newid eich darparwr gofal plant** 9
**Costau gofal plant yn cael eu talu gan rywun arall** 9
Gofal plant a ddarperir gan berthynas 9
**Y costau gofal plant y gallwch eu hawlio** 10
**Faint o help y gallwch ei gael** 10
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnom 10
**Pryd i hawlio** 10
Pa wybodaeth fydd ei hangen arnom oddi wrthych chi 11
**Sut i gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog** 12
Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am lai na blwyddyn 12
Os ydych wedi trefnu gofal plant sydd ar fin dechrau 12
Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am flwyddyn neu fwy a bob amser yn talu'r un faint 12
Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am flwyddyn neu fwy ac yn talu symiau gwahanol 12
Os ydych ond yn defnyddio gofal plant am gyfnodau byr o dro i dro 13
**Newidiadau y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt ar unwaith** 13
**Sut i gyfrifo a yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog wedi newid** 14
Os ydych yn talu'r un swm bob tro 14
Os nad ydych yn talu'r un swm bob tro 14
Os ydych yn talu gofal plant am fwy nag un plentyn neu i fwy nag un darparwr 14
Sut mae newidiadau i gostau gofal plant yn effeithio ar eich taliadau 14
Os bydd eich costau gofal plant yn gostwng £10 yr wythnos neu fwy 14
Os bydd eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn cynyddu £10 neu fwy 15
Os bydd y newid yn eich costau gofal plant yn llai na £10 yr wythnos ar gyfartaledd 16
**Newidiadau eraill y dylech roi gwybod i ni amdanynt** 16
Newid eich darparwr gofal plant 16
**Hawlio Credyd Cynhwysol neu Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth** 17
**Help i chi** 17


Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF am ragor o wybodaeth.

## Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

## Pwy sy'n cael hawlio?

Gallwch hawlio am help gyda chostau gofal plant:
- os ydych yn gyfrifol am blentyn
- os ydych yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- os yw eich darparwr gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy

Gallwch hawlio am gymorth gyda chostau gofal plant ar gyfer plentyn hyd at y dydd Sadwrn ar ôl:
- 1 Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 15 oed
- 1 Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 16 oed os:
  - ardystiwyd bod gan y plentyn nam difrifol ar ei olwg, neu ei fod yn ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol
  - ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant neu Daliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd i Oedolion ar gyfer y plentyn hwnnw

Os ydych yn hawlio costau gofal plant ar gyfer mwy nag un plentyn, ac mae'r plentyn hynaf yn cyrraedd y terfyn oedran, cyfrifwch eich costau gofal plant newydd ar gyfer unrhyw blant iau sy'n aros mewn gofal plant. Os yw eich costau wythnosol cyfartalog yn dod i ben neu'n gostwng £10 neu fwy, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith, ac o fewn mis o ddyddiad y newid.

## Cyfrifoldeb dros blentyn

Rydych yn gyfrifol am blentyn os yw fel arfer yn byw gyda chi. Os ydych yn rhannu cyfrifoldeb dros blentyn gyda rhywun nad yw'n bartner i chi, penderfynwch pwy sydd â'r prif gyfrifoldeb. Yna dylai'r unigolyn hwnnw hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer y plentyn.

I gael gwybod os ydych yn cael eich trin fel person sy'n gyfrifol am blentyn neu beidio, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC2.

## Oriau gwaith

Os ydych yn rhan o bâr ac yn gyfrifol am blentyn, gallwch hawlio:
- os yw'r ddau ohonoch fel arfer yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- os yw un ohonoch fel arfer yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos ac mae'r llall:
  - yn analluog ac yn cael budd-dal anabledd neu salwch
  - yn glaf preswyl mewn ysbyty
  - yn y carchar (p'un ai'n bwrw dedfryd o garchar neu ar remánd yn y ddalfa wrth ddisgwyl am dreial neu ddedfryd)
  - â hawl i Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwr

**Ers 6 Ebrill 2017**

Ni allwch gael elfen plentyn y Credyd Treth Plant mwyach ar gyfer trydydd plentyn neu blentyn a gafodd ei eni ar ôl 6 Ebrill 2017, oni bai bod un o'r eithriadau'n gymwys.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/child-tax-credit-exceptions-to-the-2-child-limit.cy

Bydd elfen anabledd y Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith yn cael eu talu ar gyfer pob plentyn cymwys, hyd yn oed os na fyddwn yn talu'r elfen plentyn unigol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Dylech roi gwybod bob tro am enedigaeth plentyn ac am unrhyw newidiadau'n ymwneud â'ch plant neu bobl ifanc, oherwydd ei bod yn bosibl y byddwch yn gallu cael mwy o arian.

### Yr hyn a olygwn wrth 'analluog'

Rydych yn analluog os ydych yn cael:
- Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd i Oedolion neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Lwfans Gweini
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Budd-dal Analluogrwydd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (gyda Lwfans Gweini Cyson ar eich cyfer)
- Pensiwn Anabledd Rhyfel (gyda Lwfans Gweini Cyson neu Atodiad Symudedd ar eich cyfer)
- Budd-dal Treth Gyngor neu Fudd-dal Tai gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau os ydych wedi cael
  - y lwfans hwn am 28 wythnos neu'n hirach
  - Tâl Salwch Statudol wedi ei ddilyn gan Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu'n hirach

Does dim rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch ychwanegu at ei gilydd unrhyw gyfnodau lle talwyd y canlynol i chi:
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau, ar yr amod nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân
- Tâl Salwch Statudol, ar yr amod nad oeddent yn fwy nag 8 wythnos ar wahân
- Tâl Salwch Statudol, gyda chyfnodau y cawsoch y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau, ar yr amod nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân ac roeddech yn bodloni'r amodau cyfrannu ar gyfer y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau ar y diwrnodau y cawsoch y Tâl Salwch Statudol

## Os ydych yn absennol o'r gwaith dros dro

Mae'n bosibl y gallwch gael help gyda chostau gofal plant o hyd pan fyddwch yn cael y canlynol:
- absenoldeb salwch
- absenoldeb mamolaeth
- absenoldeb tadolaeth
- absenoldeb mabwysiadu
- absenoldeb ar y cyd i rieni
- absenoldeb rhieni mewn profedigaeth
- absenoldeb o ganlyniad i streic
- gwaharddiad o'r gwaith

Ond fel arfer bydd angen i chi fod wedi gweithio nifer benodol o oriau yn syth cyn i chi fynd ar eich cyfnod o absenoldeb.

## Os ydych yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch

Byddwn yn eich trin fel pe baech yn gweithio os yw'r canlynol i gyd yn gymwys:
- rydych yn cael Tâl Salwch Statudol (SSP) neu Fudd-dal Analluogrwydd byrdymor ar y gyfradd is
- rydych yn absennol o'r gwaith am hyd at 28 wythnos oherwydd salwch ac yn cael naill ai
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
  - Cymhorthdal Incwm a delir ar sail analluogrwydd i weithio
  - credydau Yswiriant Gwladol ar sail analluogrwydd i weithio neu allu cyfyngedig i weithio

Mae hyn ar yr amod eich bod chi a'ch partner yn gweithio'r nifer ofynnol o oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn union cyn i chi ddechrau cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn.

## Os ydych ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu ar y cyd i rieni

Rydym yn eich trin fel pe baech yn gweithio os, yn union cyn i chi fynd ar absenoldeb, roeddech yn gweithio'r nifer ofynnol o oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau ac rydych:
- yn cael Lwfans Mamolaeth
- ar gyfnod mamolaeth neu fabwysiadu cyffredin
- yn 13 wythnos gyntaf yr absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu ychwanegol
- ar eich 2 wythnos o absenoldeb tadolaeth cyffredin
- ar absenoldeb ar y cyd i rieni

Os nad ydych yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl 39 wythnos efallai na fyddwch yn gymwys rhagor. Rhowch alwad i'r llinell gymorth os yw hynny'n digwydd.

### Os ydych yn absennol o ganlyniad i streic neu wedi'ch gwahardd o'r gwaith

Byddwn hefyd yn eich trin fel pe baech yn gweithio os oeddech ar y 10 diwrnod cyntaf o absenoldeb streic neu waharddiad o'r gwaith. Mae'r amodau hyn yn gymwys cyhyd ag yr oeddech yn gweithio'r nifer ofynnol o oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn union cyn cymryd absenoldeb o ganlyniad i streic neu cyn cael eich gwahardd.

## Darparwyr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy

### Eich cyfrifoldeb wrth hawlio costau gofal plant

Gallwch hawlio help ar gyfer eich gofal plant dim ond os yw eich darparwr gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y darparwr gofal plant rydych yn ei ddefnyddio'n gofrestredig neu'n gymeradwy. Dylech wneud y canlynol:

- gwirio dogfennau eich darparwr gofal plant er mwyn cadarnhau ei fod yn gofrestredig neu'n gymeradwy
- cadw cofnod o'r dyddiad y mae cofrestriad neu gymeradwyaeth y darparwr yn dod i ben
  - yn agos at y dyddiad y daw i ben, sicrhewch fod eich darparwr gofal plant yn adnewyddu'i gofrestriad neu gymeradwyaeth
  - gofynnwch am gael gweld y dystiolaeth newydd o gymeradwyaeth neu gofrestriad

#### Beth yw gofal plant cofrestredig neu gymeradwy

Cymru - darllenwch dudalen 5.

Lloegr - darllenwch dudalennau 6 a 7.

Yr Alban - darllenwch dudalennau 7 ac 8.

Gogledd Iwerddon - darllenwch dudalen 8.

Gweision y Goron sy'n gweithio dramor - darllenwch dudalen 8.

### Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy: Cymru

I gael help gyda chostau gofal plant yng Nghymru mae'n rhaid i'ch darparwr gofal plant fod yn un o'r canlynol:

- yn gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- ysgol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn adeiladau'r ysgol
- awdurdod lleol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau ysgol
- unigolyn sydd wedi'i gyflogi neu ei hurio o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth gan y darparwr gwasanaeth cymorth gofal cartref o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- rhywun a gymeradwywyd gan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant (Cymru) 2021, sy'n darparu gofal plant yng nghartref y plentyn, neu os oes sawl plentyn yn derbyn gofal, yng nghartref un o'r plant

#### Os yw gofalwr maeth yn gofalu am eich plentyn

Gallwch hawlio help gyda'ch costau gofal plant os ydych yn defnyddio gofalwr maeth ar gyfer eich gofal plant a bod eich plentyn o dan:

- 8 oed - mae'n rhaid i'r gofalwr maeth fod wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru
- 16 oed, ac os yw'r gofal yng nghartref eich plentyn - rhaid i'r gofalwr maeth fod yn gymeradwy o dan y cynllun Cymeradwyo Gofal Plant yn y Cartref

Ni allwch hawlio costau gofal plant am ofalu am eich plentyn maeth eich hun.

> **Sut i wirio a yw eich darparwr gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy yng Nghymru**
>
> Rhoddir llythyr neu dystysgrif i ddarparwyr gofal plant fel tystiolaeth o'u cofrestriad neu eu cymeradwyaeth os ydynt:
>
> - wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru
> - yn gymeradwy o dan gynllun darparwyr gofal plant yn y cartref
>
> I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant, ewch i www.llyw.cymru/gofal-plant.

## Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy: Lloegr

I gael help gyda chostau gofal plant yn Lloegr, rhaid i'ch darparwr gofal plant fod yn gofrestredig neu'n gymeradwy.

### Os ydych yn defnyddio gwarchodwr plant, cynllun chwarae, clwb gofal plant neu feithrinfa

Mae angen i'ch darparwr gofal plant fod wedi ei gofrestru ar un o'r canlynol:

- y Gofrestr Blynyddoedd Cynnar (EYR) gyda naill ai Ofsted neu asiantaeth gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru gydag Ofsted os yw eich plentyn o dan 5 mlwydd oed
- rhan orfodol y Gofrestr Gofal Plant Gyffredinol (GCR) gyda naill ai Ofsted neu asiantaeth gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru gydag Ofsted os yw eich plentyn rhwng 5 a 7 oed
- rhan wirfoddol y GCR gyda naill ai Ofsted neu asiantaeth gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru gydag Ofsted os yw eich plentyn yn 8 oed neu'n hŷn

Cyn hawlio help gyda'ch costau gofal plant, holwch eich darparwr a yw ar y gofrestr briodol. Nid oes angen i rai darparwyr, fel nanis sy'n darparu gofal yng nghartref y plentyn ei hun, gofrestru ar y Gofrestr Blynyddoedd Cynnar na rhan orfodol y Gofrestr Gofal Plant Gyffredinol. Os ydych yn defnyddio'r math hwn o ddarparwr a'ch bod eisiau help gyda'ch costau gofal plant, rhaid i'ch darparwr gofrestru ar ran wirfoddol y Gofrestr Gofal Plant Gyffredinol.

### Os yw gofalwr maeth cymeradwy yn gofalu am eich plentyn

Gallwch hawlio help gyda'ch costau gofal plant os ydych yn defnyddio gofalwr maeth cymeradwy, ond mae'n rhaid iddo fod wedi cofrestru gydag Ofsted ar y Gofrestr Blynyddoedd Cynnar neu'r Gofrestr Gofal Plant Gyffredinol. Ni allwch hawlio costau gofal plant ar gyfer gofalu am eich plentyn maeth eich hun.

### Os yw gweithiwr gofal neu nyrs yn gofalu am eich plentyn

Gallwch hawlio help ar gyfer eich costau gofal plant os ydych yn defnyddio gweithiwr gofal yn y cartref neu nyrs i ofalu am eich plentyn gartref. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gweithiwr/nyrs ddod o asiantaeth sydd wedi cofrestru o dan Reoliadau 2014 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir).

### Addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 2, 3 a 4 blwydd oed

Mae gan rai plant 2 oed cymwys (gan gynnwys rhai o deuluoedd sy'n cael Credyd Treth Gwaith) a phob plentyn 3 a 4 oed yr hawl i 570 awr y flwyddyn o addysg gynnar am ddim gyda darparwr cofrestredig. Fel arfer mae hyn yn cael ei gymryd fel 15 awr yr wythnos yn ystod y tymor, ond gellir ei gymryd fel llai o oriau yr wythnos dros ragor o wythnosau os yw'r ddarpariaeth ar gael.

Mae'n bosibl y gall teuluoedd sy'n gweithio yn Lloegr, ac sydd â phlant 3 a 4 oed, gael hyd at 30 awr o ofal plant am ddim yr wythnos (1,140 awr y flwyddyn).

Nid oes rheidrwydd i gymryd y swm llawn o oriau ac mae'n bosibl y gallwch gymryd llai o oriau i ddechrau a'u cynyddu'n ddiweddarach wrth i'ch plentyn arfer â'i amgylchiadau. Nid oes angen i chi dalu am le addysg gynnar am ddim plentyn, ac nid oes raid i chi fanteisio ar wasanaethau ychwanegol i gael mynediad at ei hawl am le am ddim. Fodd bynnag, gallwch wneud cais am unrhyw ofal plant ychwanegol y byddwch yn talu amdano y tu allan i'r hawl am ddim.

I gael rhagor o wybodaeth am addysg gynnar am ddim, ewch i www.gov.uk/freechildcare

### Os ydych yn defnyddio gofal plant wedi ei ddarparu gan ysgol

Os yw eich plentyn yn 3 neu 4 oed, mae'n rhaid i'r ddwy elfen a ganlyn fod yn berthnasol er mwyn i'r math hwn o ofal gyfrif fel credydau treth a gymeradwywyd. Rhaid i'r gofal plant gael ei ddarparu:

- o dan gyfarwyddyd corff llywodraethu'r ysgol neu'r un sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol
- ar dir yr ysgol neu mewn eiddo arall a allai gael ei archwilio fel rhan o arolygiad o'r ysgol gyfan gan Ofsted neu gan gorff arolygu cyfatebol a benodwyd i arolygu ysgolion annibynnol penodol - er enghraifft, yr Arolygiaeth Ysgolion Annibynnol, Arolygiaeth Ysgolion Pontio neu'r Gwasanaeth Arolygu Ysgolion

Os yw eich plentyn rhwng 5 a 15 mlwydd oed (neu 16 oed os yw eich plentyn yn anabl), mae'n rhaid i bob un o'r canlynol fod yn berthnasol er mwyn i'r math hwn o ofal gyfrif fel darpariaeth a gymeradwywyd ar gyfer credydau treth. Rhaid i'r gofal plant gael ei ddarparu:

- y tu allan i oriau ysgol, er enghraifft clybiau ar ôl yr ysgol neu glybiau brecwast
- o dan gyfarwyddyd corff llywodraethu'r ysgol neu o dan gyfarwyddyd yr un sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol
- ar dir yr ysgol, neu mewn eiddo arall a allai gael ei arolygu gan Ofsted neu gan gorff arolygu cyfatebol a benodwyd i arolygu ysgolion annibynnol penodol - er enghraifft, yr Arolygiaeth Ysgolion Annibynnol, Arolygiaeth Ysgolion Pontio neu'r Gwasanaeth Arolygu Ysgolion. Gallai adeiladau eraill fod yn neuadd bentref a ddefnyddir gan yr ysgol ar gyfer ei gweithgareddau gofal plant y tu allan i oriau ysgol

### Sut i wirio a yw eich darparwr gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy yn Lloegr

Rhoddir llythyr neu dystysgrif i bob darparwr gofal plant neu asiantaeth gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru ag Ofsted yn Lloegr fel tystiolaeth o gofrestriad neu gymeradwyaeth.

Mae'n rhaid i rai darparwyr gofal plant ailymgeisio'n rheolaidd ar gyfer cofrestriad neu gymeradwyaeth (er enghraifft, bob blwyddyn). Os yw hyn yn gymwys i'ch darparwr gofal plant, bydd y llythyr neu'r dystysgrif a anfonir ato yn nodi'n glir pryd bydd y cofrestriad neu'r gymeradwyaeth yn dod i ben. I wirio a yw'r cofrestriad yn dal yn ddilys, gallwch gysylltu ag Ofsted:

- ewch i www.gov.uk/government/organisations/ofsted
- ffoniwch 0300 123 1231

Os yw darparwr wedi cofrestru gydag asiantaeth gwarchodwyr plant, bydd angen i chi gadarnhau gyda'r asiantaeth briodol bod y cofrestriad yn un dilys. Gall y darparwr roi manylion cyswllt yr asiantaeth gwarchodwyr plant i chi a byddant, hefyd, ar wefan Ofsted.

## Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy: Yr Alban

I gael help gyda'ch costau gofal plant yn yr Alban, rhaid i'ch darparwr gofal plant fod yn un o'r canlynol:

- yn gofrestredig gyda *Social Care and Social Work Improvement Scotland* (SCSWIS) - a elwir hefyd yn *Care Inspectorate*
- clwb gofal plant sydd wedi cofrestru gyda SCSWIS i roi gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol
- unigolyn o asiantaeth gofal plant cofrestredig, gwasanaeth gwarchodwyr plant neu asiantaeth nanis sy'n rhoi gofal plant yng nghartref y plentyn

Gallwch hefyd hawlio help tuag at eich costau gofal plant os ydych yn defnyddio:

- gofalwr maeth cymeradwy
- gofalwr sy'n berthynas

Mae gofalwr sy'n berthynas yn debyg i ofalwr maeth ond mae eisoes yn adnabod y plentyn gan ei fod naill ai yn berthynas neu'n ffrind i'r teulu.

Os ydych yn defnyddio gofalwr maeth neu ofalwr sy'n berthynas ar gyfer eich gofal plant, rhaid i'r gofalwr fod yn gofrestredig fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd gyda SCSWIS.

Ni allwch hawlio costau gofal plant am ofalu am:

- eich plentyn maeth eich hun
- plentyn fel rhan o drefniant gofal gan berthynas

### Sut i wirio a yw eich darparwr gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy yn yr Alban

Rhoddir llythyr neu dystysgrif i bob darparwr gofal plant sy'n gofrestredig gyda SCSWIS fel tystiolaeth o gofrestriad neu gymeradwyaeth.

Mae'n rhaid i rai darparwyr gofal plant ailymgeisio'n rheolaidd ar gyfer cofrestriad neu gymeradwyaeth (er enghraifft, bob blwyddyn). Os yw hyn yn gymwys i'ch darparwr gofal plant, bydd y llythyr neu'r dystysgrif a anfonir ato yn nodi'n glir pryd bydd y cofrestriad neu'r gymeradwyaeth yn dod i ben.

I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant, ewch i ewch i www.mygov.scot/childcare-costs-help

I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant cofrestredig, ewch i www.careinspectorate.com a dewiswch *Find care*.

## Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy: Gogledd Iwerddon a Gweision y Goron

### Gogledd Iwerddon

I gael help gyda'ch costau gofal plant yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i'ch darparwr gofal plant fod yn un o'r canlynol:

- yn gofrestredig gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- ysgol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol yn adeiladau'r ysgol
- Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol
- unigolyn a gymeradwywyd gan y Cynllun *Approval of Home Child Care Providers (Northern Ireland) 2006*, sy'n rhoi gofal plant yng nghartref y plentyn

### Os yw gofalwr maeth yn gofalu am eich plentyn

Gallwch hawlio help gyda'ch costau gofal plant yng Ngogledd Iwerddon os ydych yn defnyddio gofalwr maeth i ofalu am y plentyn. Os yw eich plentyn o dan:

- 12 oed - rhaid i'r gofalwr maeth fod yn gofrestredig gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- 16 oed, ac os yw'r gofal yng nghartref eich plentyn - rhaid i'r gofalwr maeth fod yn gymeradwy o dan y cynllun Cymeradwyo Gofal Plant yn y Cartref

Ni allwch hawlio costau gofal plant am ofalu am eich plentyn maeth eich hun.

### Sut i wirio a yw eich darparwr gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy yng Ngogledd Iwerddon

Rhoddir llythyr neu dystysgrif i ddarparwyr gofal plant fel tystiolaeth o'u cofrestriad os ydynt:

- wedi eu cofrestru gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- yn gymeradwy o dan y Cynllun Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref

Er mwyn gwirio a yw eu cofrestriad yn ddilys o hyd, cysylltwch â'r Tîm Blynyddoedd Cynnar yn eich Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol leol.

Ewch i www.nidirect.gov.uk a chwilio am *'Early Years Teams'*.

### Gweision y Goron sy'n gweithio dramor

Os ydych yn was sifil neu'n aelod o'r Lluoedd Arfog gyda swydd dramor, ac mae eich plentyn wedi mynd gyda chi, gallwch gael help gyda'ch costau gofal plant os yw eich darparwr gofal plant yn gymeradwy o dan gynllun achredu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) dramor.

### Gweithio y tu allan i'r DU

Rhaid i ofal plant a ddarperir y tu allan i'r DU ond o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) fod naill ai:

- wedi'i ddarparu ar gyfer gweithwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) o dan drefniadau rhwng yr MOD ac OFSTED neu gyrff tebyg
- yn ddarparwr gofal plant sydd wedi'i gofrestru gyda sefydliad achrededig yn y wlad honno yn yr AEE, neu wedi'i gymeradwyo gan sefydliad o'r fath

Sylwer: Rhaid i ofal plant a ddarperir y tu allan i'r DU a'r tu allan i'r AEE gael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr yr MOD o dan drefniadau rhwng yr MOD ac OFSTED neu gyrff tebyg y tu allan i'r DU.

## Newid eich darparwr gofal plant

Os yw eich darparwr yn peidio â bod yn gofrestredig neu'n gymeradwy, ac rydych am barhau i gael help gyda'ch costau gofal plant, bydd angen i chi wneud trefniadau eraill ar gyfer gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

Rhowch wybod i ni ar unwaith, ac o fewn mis, os ydych yn stopio defnyddio gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Daw'r help gyda chostau gofal plant i ben y diwrnod ar ôl i'r cofrestriad neu'r gymeradwyaeth ddod i ben. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni mewn pryd, efallai y byddwn yn talu gormod o gredydau treth i chi y bydd yn rhaid i chi eu had-dalu. Yn ogystal, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb o hyd at £300.

Os newidiwch eich darparwr gofal plant, dylech roi gwybod i ni, hyd yn oed os ydych yn parhau i dalu'r un swm i'r darparwr newydd, gan roi:

- enw'r darparwr
- cyfeiriad y darparwr, gan gynnwys y cod post
- enw'r corff cofrestru neu gymeradwyo a'r rhif cofrestru, os rhoddwyd un fel rhan o'r broses gofrestru
- dyddiad y newid
- y swm rydych yn ei dalu am ofal plant

## Costau gofal plant yn cael eu talu gan rywun arall

Ni allwch hawlio ar gyfer:

- unrhyw gostau gofal plant rydych yn talu amdanynt gan ddefnyddio talebau gofal plant. Dyma'r swm a gewch gan eich cyflogwr tuag at eich costau gofal plant (naill ai mewn arian neu dalebau), ac mae'n cynnwys talebau yn gyfnewid am ostyngiad yn eich cyflog (gelwir hyn yn 'aberthu cyflog')
- costau gofal plant a delir gan eich awdurdod lleol (neu eich awdurdod addysg lleol) ar gyfer dysgu cynnar neu addysg feithrin i'ch plentyn - er enghraifft pan fo'ch awdurdod lleol yn Lloegr yn talu'r gost am 15 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar am ddim i blant sy'n 3 a 4 blwydd oed
- taliadau a gewch gan y llywodraeth tuag at eich costau gofal plant oherwydd eich bod yn fyfyriwr neu'n dechrau gwaith

Gallwch ond hawlio am y symiau gwirioneddol rydych yn eu talu am unrhyw ofal plant rydych yn ei ddefnyddio. Os yw eich costau'n cynnwys swm a dalwyd fel tâl cadw, ffoniwch ein llinell gymorth am ragor o wybodaeth.

> **Talebau gofal plant**
>
> Os yw eich cyflogwr yn cynnig talebau gofal plant i chi gan gynnwys talebau yn gyfnewid am ostyngiad yn eich cyflog drwy aberthu cyflog, bydd yn effeithio ar faint o gredydau treth y gallwch eu cael.
>
> Os ydych eisiau gwybod a fyddech ar eich ennill drwy gymryd y talebau gofal plant, ewch i www.gov.uk/cyfrifiannell-gofal-plant

### Gofal plant a ddarperir gan berthynas

Ni allwch fel arfer hawlio help ar gyfer gofal plant a ddarperir gan berthnasau, hyd yn oed os ydynt yn gofrestredig neu'n gymeradwy.

Gallwch hawlio os yw'r perthynas:

- yn warchodwr plant cofrestredig sy'n gofalu am eich plentyn y tu allan i gartref eich plentyn
- yn ddarparwr gofal plant, a gymeradwywyd o dan y Cynllun Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref yng Nghymru neu yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gofalu am eich plentyn y tu allan i gartref eich plentyn - ond rhaid i'r darparwr gofal plant ofalu hefyd am o leiaf un plentyn arall nad yw'n berthynas

> **Yr hyn a olygwn wrth 'perthynas'**
>
> Gallai perthynas olygu:
>
> - rhiant, taid/tad-cu, nain/mam-gu, modryb, ewythr, brawd, chwaer neu lys-riant eich plentyn
> - rhywun sydd â pherthynas gref gyda'r plentyn, er enghraifft, rhywun sy'n ymddwyn fel rhiant i blant ei bartner

## Y costau gofal plant y gallwch eu hawlio

Gallwch ond hawlio am y symiau gwirioneddol rydych yn eu talu am unrhyw ofal a ddarperir yn bersonol.

## Faint o help y gallwch ei gael

Gallwch gael help gyda hyd at 70% o'ch costau gofal plant - yn amodol ar derfyn wythnosol uchaf. Os ydych yn talu gofal plant ar gyfer:

- un plentyn, uchafswm y costau gofal plant y gallwch ei hawlio yw £175 yr wythnos
- 2 neu fwy o blant, uchafswm y costau gofal plant y gallwch ei hawlio yw £300 yr wythnos

Golyga hyn mai uchafswm yr help y gallwch ei gael ar gyfer eich gofal plant drwy gredydau treth yw:

- £122.50 yr wythnos ar gyfer un plentyn
- £210 yr wythnos ar gyfer 2 neu fwy o blant

| Nifer y plant | Terfyn wythnosol ar gostau | Canran y costau y gallwch gael help ar eu cyfer | Uchafswm y credydau treth ar gyfer gofal plant |
|---|---|---|---|
| Un plentyn | £175 | 70% | £175 x 70% = £122.50 |
| 2 neu fwy o blant | £300 | 70% | £300 x 70% = £210 |

Bydd y swm gwirioneddol a gewch yn dibynnu hefyd ar eich incwm.

Os ydych yn cyflogi rhywun sydd yn ddarparwr gofal plant yn y cartref cofrestredig neu gymeradwy, er enghraifft nani, gallwch gael help ar gyfer hyd at 70% o'r costau gros o'i gyflogi - o fewn y terfynau uchod. Cewch gynnwys costau:

- cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a dalwch
- buddiannau a rowch
- costau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogi'r unigolyn hwnnw

### Os oes angen rhagor o wybodaeth arnom

Mae'n bosibl y gwnawn ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth i sicrhau eich bod yn cael yr help iawn gyda'ch costau gofal plant.

Efallai y gofynnwn i chi wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i ni sut y gwnaethoch gyfrifo'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog
- rhoi gwybod i ni os yw eich costau gofal plant wedi newid
- anfon tystiolaeth i ddangos faint rydych yn ei dalu ar gostau gofal plant, fel anfonebau, cyfriflenni banc a derbynebau

Mae'n bwysig eich bod yn:

- cadw'r dogfennau hyn yn ddiogel fel y gallwch eu hanfon atom os gofynnwn amdanynt
- rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, neu'n rhoi gwybod i ni am unrhyw anawsterau y gallech fod yn eu hwynebu wrth ei darparu

Os na fyddwch yn anfon yr wybodaeth hon atom, mae'n bosibl y byddwn yn gostwng eich credydau treth neu'n eu hatal.

## Pryd i hawlio

Gallwch hawlio help gyda'ch costau gofal plant:

- cyn gynted ag yr ydych yn dechrau talu am ofal plant
- hyd yn oed os mai dim ond ar gyfer cyfnod byr y mae angen y gofal plant arnoch - darllenwch dudalen 13

Mae angen i chi hawlio help ar gyfer costau gofal plant o fewn mis o'r adeg rydych yn dechrau eu talu - ni allwn eich talu am unrhyw gostau rydych wedi eu talu cyn hynny.

## Pa wybodaeth fydd ei hangen arnom oddi wrthych chi

Pan fyddwch yn ffonio ein llinell gymorth i hawlio, bydd angen i chi roi'r canlynol i ni:

- manylion eich darparwr gofal plant, gan gynnwys
  - enw
  - cyfeiriad gan gynnwys cod post
  - enw'r corff cofrestru neu gymeradwyo
  - rhif cofrestru neu gymeradwyo
- eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog - gweler tudalennau 12 i 13

Gallwn wirio'r wybodaeth gyda'ch darparwr, felly bydd angen y manylion cywir arnom ar ei gyfer.

Os ydych yn defnyddio mwy nag un darparwr gofal plant, neu os ydych yn defnyddio darparwr gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn (er enghraifft, yn ystod gwyliau ysgol), bydd angen i chi roi manylion eich holl ddarparwyr. Rhowch wybod i ni ar unwaith os yw'r canlynol yn berthnasol:

- rydych yn newid eich darparwr
- rydych yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r gofal plant - er mwyn osgoi cronni gormod o gredydau treth, y bydd yn rhaid i chi eu had-dalu
- mae'ch plentyn yn rhoi'r gorau i fynd i ofal plant am 4 wythnos neu fwy pan fyddai fel arfer wedi mynd

## Sut i gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog

### Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am lai na blwyddyn

Defnyddiwch y tabl hwn, neu'r gyfrifiannell ar-lein, i'ch helpu i gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.

Ewch i www.gov.uk/childcare-costs-for-tax-credits

| | |
|---|---|
| **Rydych yn talu'r un swm wythnosol bob tro** | Defnyddiwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob wythnos - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |
| **Rydych yn talu symiau wythnosol gwahanol** | 1. Cyfrifwch beth rydych yn disgwyl ei wario yn gyfan gwbl ar ofal plant dros y 52 wythnos nesaf - cychwynnwch o'r dyddiad rydych yn cyfrifo'ch costau.<br>2. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |
| **Rydych yn talu'r un swm misol bob tro** | 1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob mis.<br>2. Lluoswch y swm hwnnw â 12.<br>3. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |
| **Rydych yn talu symiau misol gwahanol, neu'n talu drwy unrhyw amlder arall** | 1. Cyfrifwch y cyfanswm rydych yn disgwyl ei wario ar ofal plant dros y 12 mis nesaf.<br>2. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |

### Os ydych wedi trefnu gofal plant sydd ar fin dechrau

Gofynnwch i'ch darparwr gofal plant am amcangyfrif ysgrifenedig o'r tâl y bydd yn ei godi arnoch, a defnyddiwch y swm hwnnw i gyfrifo eich costau wythnosol cyfartalog.

### Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am flwyddyn neu fwy a bob amser yn talu'r un faint

Defnyddiwch y tabl hwn i'ch helpu i gyfrifo'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog.

Talgrynnwch eich cyfartaledd i fyny i'r bunt agosaf bob tro.

| | |
|---|---|
| **Rydych yn talu'n wythnosol** | Defnyddiwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob wythnos - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |
| **Rydych yn talu'n fisol** | 1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob mis.<br>2. Lluoswch y swm hwnnw â 12.<br>3. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |
| **Rydych yn talu bob pythefnos (bob 2 wythnos)** | 1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob pythefnos.<br>2. Rhannwch y swm â 2 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |
| **Rydych yn talu bob 4 wythnos** | 1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob pedair wythnos.<br>2. Rhannwch y swm â 4 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |
| **Rydych yn talu'n flynyddol** | 1. Cymerwch y cyfanswm rydych yn ei dalu bob blwyddyn.<br>2. Rhannwch y swm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |
| **Rydych yn talu bob tymor** | Ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 am help gyda chyfrifo eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog. |

### Os ydych wedi bod yn defnyddio gofal plant am flwyddyn neu fwy ac yn talu symiau gwahanol

Weithiau mae'n bosibl y byddwch yn talu, neu'n disgwyl talu, symiau gwahanol ar gyfer gofal plant. Er enghraifft, rydych yn defnyddio gofal plant yn rheolaidd, ond efallai byddwch yn talu mwy - neu lai - yn ystod gwyliau'r ysgol nag y byddech yn ei wneud yn ystod y tymor.

Cyfrifwch eich costau cyfartalog fel a ganlyn:

1. Cyfrifwch y cyfanswm rydych wedi'i dalu am ofal plant yn y 52 wythnos diwethaf (neu 12 mis diwethaf os ydych yn talu'n fisol neu ar unrhyw amlder arall) - ewch yn ôl o'r dyddiad rydych yn cyfrifo eich costau.
2. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog.

### Enghraifft 1 – Rydych yn talu'n fisol ond yn talu symiau gwahanol

Mae Bethan yn talu am ofal plant yn fisol ond mae'r swm mae'n ei dalu yn newid o fis i fis.
Yn y 12 mis diwethaf costau Bethan oedd:

| | |
|---|---|
| 1 mis ar £240 | 1 x £240 = £240 |
| 3 mis ar £200 | 3 x £200 = £600 |
| 2 mis ar £320 | 2 x £320 = £640 |
| 6 mis ar £160 | 6 x £160 = £960 |
| Cyfanswm ar gyfer y flwyddyn | £2,440 |

I gyfrifo'r cyfartaledd, rhennir y cyfanswm â 52 (oherwydd bod yna 52 wythnos mewn blwyddyn). Felly costau wythnosol cyfartalog Bethan yw £2,440 ÷ 52 = £46.92. Dylech dalgrynnu'r swm hwn i fyny i £47.

### Enghraifft 2 – Rydych yn talu'n wythnosol ond yn talu symiau gwahanol

Mae Ahmed fel arfer yn talu £60 yr wythnos ar gyfer gofal plant cofrestredig yn ystod tymor yr ysgol. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'n talu am ddeg wythnos ar £100 yr wythnos.
Cyfanswm ei gostau ar gyfer 52 wythnos yw:

| | |
|---|---|
| 39 wythnos ar £60 | 39 x £60 = £2,340 |
| 10 wythnos ar £100 | 10 x £100 = £1,000 |
| Cyfanswm ar gyfer y flwyddyn | £3,340 |

I gyfrifo'r cyfartaledd, rhennir y cyfanswm â 52 (oherwydd bod yna 52 wythnos mewn blwyddyn). Felly costau wythnosol cyfartalog Ahmed yw £3,340 ÷ 52 = £64.23. Dylech dalgrynnu'r swm hwn i fyny i £65.

**Sylwer:** Mae Ahmed, yn gywir, ond wedi cynnwys y costau ar gyfer yr wythnosau y mae wedi talu amdanynt mewn gwirionedd.

## Os ydych ond yn defnyddio gofal plant am gyfnodau byr o dro i dro

Hyd yn oed os nad ydych yn defnyddio gofal plant fel arfer, efallai y bydd ei angen arnoch o dro i dro am gyfnodau penodol byr. Er enghraifft, yn ystod gwyliau ysgol, neu ar gyfer argyfwng. Mae'n bosibl y gallwch hawlio help gyda'ch costau dim ond ar gyfer y cyfnod byr y bydd angen y gofal plant. Golyga hyn y cyfrifir ac y telir am yr help gyda'ch gofal plant dros y cyfnod byr rydych yn defnyddio'r gofal.

Er mwyn i hyn ddigwydd:
- rhaid i chi ddefnyddio gofal plant o dro i dro yn unig, er enghraifft, dim ond yn ystod gwyliau'r haf neu mewn argyfwng
- rhaid i'ch gofal plant fod am gyfnod penodedig - mae hyn yn golygu eich bod yn gwybod pryd y bydd yn dechrau ac yn gorffen

Fel arall, bydd yr help ar gyfer eich gofal plant yn cael ei gyfrifo a'i dalu dros 52 wythnos.

Os hoffech hawlio help sydd wedi'i gyfartalu a'i dalu dros y flwyddyn, cyfrifwch eich costau wythnosol cyfartalog drwy ddilyn yr arweiniad - darllenwch dudalennau 12 a 13.

Ffoniwch ein llinell gymorth i hawlio help am gyfnod byr o ofal plant. Gwnewch hyn cyn gynted ag y bo'ch gofal plant yn dechrau. Bydd angen i chi roi gwybod i ni am y canlynol:
- dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen y gofal plant
- eich costau gofal plant gwirioneddol ar gyfer y cyfnod byr
- manylion eich darparwr gofal plant - ei enw, cyfeiriad ynghyd â'r cod post, rhif ffôn a rhif cofrestru neu rif cymeradwy gofal plant.

## Newidiadau y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt ar unwaith

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am y diwrnod olaf y gofalwyd am eich plentyn gan ddarparwr cofrestredig os yw'r canlynol yn digwydd:
- mae'ch darparwr gofal plant yn peidio â bod yn gofrestredig neu'n gymeradwy
- rydych yn rhoi'r gorau i ddefnyddio darparwr gofal cofrestredig neu gymeradwy
- mae'ch costau gofal plant yn disgyn i sero
- mae'ch plentyn yn rhoi'r gorau i fynychu gofal plant am 4 wythnos neu fwy pan fyddai fel arfer wedi mynd

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am y dyddiad y digwyddodd y newid os yw'r canlynol yn digwydd:
- rydych yn dechrau cael help arall tuag at eich costau gofal plant
- mae'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn mynd i fyny neu i lawr £10 neu fwy

Rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith, a chyn pen un mis, os bydd unrhyw un o'r newidiadau hyn yn digwydd.

Os ydych yn oedi cyn rhoi gwybod i ni, ac rydym yn talu gormod o gredydau treth i chi, bydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl. Efallai y byddwch hefyd yn agored i gosb o hyd at £300 os na fyddwch yn ein hysbysu o'r newid o fewn mis.

Os rhowch wybodaeth anghywir am eich costau gofal plant, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb hyd at £3,000 neu mae'n bosibl y cewch eich erlyn.

## Sut i gyfrifo a yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog wedi newid

Bydd y modd yr ydych yn cyfrifo newidiadau yn eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn dibynnu ar sut y gwnaethoch gyfrifo'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn y lle cyntaf.

### Os ydych yn talu'r un swm bob tro

#### Rydych yn talu'n wythnosol

Cyfrifwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd - darllenwch dudalen 12 i gael help ar sut i wneud hyn.

Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd gyda'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os oes gwahaniaeth o £10 neu fwy bob wythnos am 4 wythnos yn olynol, ac mae'ch costau wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn is neu'n uwch na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog, bydd angen i chi roi gwybod i ni.

#### Rydych yn talu'n fisol neu ar unrhyw amlder arall

Cyfrifwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd - darllenwch dudalen 12 i gael help ar sut i wneud hyn.

Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd gyda'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os oes gwahaniaeth o £10 yr wythnos neu fwy, bydd angen i chi roi gwybod i ni amdano.

### Os nad ydych yn talu'r un swm bob tro

I gyfrifo'ch costau wythnosol cyfartalog newydd:

1. Ychwanegwch at ei gilydd yr hyn a ddisgwyliwch ei dalu yn gyfan gwbl dros y 52 wythnos nesaf (neu 12 mis os ydych yn talu'n fisol neu ar unrhyw amlder arall).
2. Rhannwch y cyfanswm â 52 - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd.
3. Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd gyda'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os oes gwahaniaeth o £10 yr wythnos neu fwy, bydd angen i chi roi gwybod i ni amdano.

### Os ydych yn talu gofal plant am fwy nag un plentyn neu i fwy nag un darparwr

Y newid yn y cyfanswm a dalwch bob wythnos yw'r hyn sydd o ddiddordeb i ni:

1. Ychwanegwch at ei gilydd yr holl gostau gofal plant wythnosol cyfartalog a dalwch ar gyfer eich plant - dyma eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd.
2. Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd gyda'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os oes gwahaniaeth o £10 yr wythnos neu fwy, bydd angen i chi roi gwybod i ni amdano.

### Sut mae newidiadau i gostau gofal plant yn effeithio ar eich taliadau

Os yw eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10:

- yn is na'r hen gyfartaledd a roesoch i ni, ni fydd yr help ar gyfer eich gofal plant yn gostwng yn yr wythnos y digwyddodd y newid na'r 3 wythnos ddilynol.
- yn uwch na'r hen gyfartaledd a roesoch i ni, byddwn yn cynyddu'r help ar gyfer eich gofal plant o wythnos gyntaf y newid

### Os bydd eich costau gofal plant yn gostwng £10 yr wythnos neu fwy

Os ydych yn talu'r un swm bob wythnos, mae hyn yn golygu, ym mhob wythnos am 4 wythnos yn olynol, fod eich costau wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn is na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog.

Os nad ydych yn talu'n wythnosol, neu os ydych yn talu symiau gwahanol, mae hyn yn golygu fod eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn is na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog.

### Enghraifft – Mae costau gofal plant yn gostwng £10 yr wythnos neu fwy

Mae costau gofal plant Ahmed yn amrywio, oherwydd ei fod yn talu mwy yn ystod gwyliau'r ysgol. Ei gostau wythnosol cyfartalog yw £65. Ar 2 Hydref, mae Ahmed yn dechrau gweithio oriau byrrach ac mae angen i'w warchodwr plant ofalu am ei blant am lai o oriau bob wythnos.

Mae bellach yn talu £40 yr wythnos yn ystod y tymor (cyfanswm o 39 wythnos) ac £80 yr wythnos am 10 wythnos yn ystod gwyliau'r haf. Nid oes ganddo gostau gofal plant ar gyfer 3 wythnos yn ystod gwyliau'r haf gan fod y plant yn aros gyda'u mam-gu a'u tad-cu.

Yn ystod y 52 wythnos nesaf bydd Ahmed yn gwario:

| | |
|---|---|
| 10 wythnos o wyliau'r ysgol ar £80 yr wythnos | 10 x £80 = £800 |
| 39 wythnos yn ystod tymor yr ysgol ar £40 yr wythnos | 39 x £40 = £1,560 |
| 3 wythnos yn ystod gwyliau'r haf gyda'u mam-gu a'u tad-cu | = £0 |
| Cyfanswm ar gyfer 52 wythnos | £2,360 |

I gyfrifo'r cyfartaledd wythnosol newydd, rhennir y cyfanswm â 52 (oherwydd bod 52 wythnos mewn blwyddyn). Felly costau wythnosol cyfartalog newydd Ahmed yw £2,360 ÷ 52 = £45.38 (wedi'i dalgrynnu i fyny i £46). Mae hyn yn fwy na £10 yn is na'i hen gyfartaledd o £65 yr wythnos. Mae'n rhaid i Ahmed roi gwybod i ni am y newid hwn o fewn mis.

**Sylwer:** Mae Ahmed ond wedi cynnwys y costau ar gyfer yr wythnosau y mae wedi talu amdanynt mewn gwirionedd.

## Os bydd eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn cynyddu £10 neu fwy

Os ydych yn talu'r un swm bob wythnos, mae hyn yn golygu ym mhob wythnos, am 4 wythnos yn olynol, bydd eich costau wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn uwch na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog.

Os nad ydych yn talu'n wythnosol, neu os ydych yn talu symiau gwahanol, mae hyn yn golygu bod eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn uwch na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog.

Bydd yr help ar gyfer eich gofal plant yn cynyddu o wythnos gyntaf y newid.

Os nad ydych yn rhoi gwybod i ni am y cynnydd yn eich costau gofal plant mewn da bryd efallai na chewch gymaint o gredydau treth ag y dylech. Er mwyn cael unrhyw gynnydd wedi ei ôl-ddyddio i'r wythnos y cynyddodd eich costau gyntaf, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen mis o'r wythnos gyntaf honno.

### Enghreifftiau – Mae costau gofal plant yn cynyddu £10 yr wythnos neu fwy

### Enghraifft 1

Costau gofal plant wythnosol cyfartalog Siôn yw £50. Wedyn mae ei gostau'n gostwng am 6 wythnos i £45 yr wythnos. Gall anwybyddu hyn gan fod y newid yn llai na £10 yr wythnos ar gyfartaledd.

Ar ôl y 6 wythnos hynny, mae'n dechrau talu £70 yr wythnos ac yn disgwyl talu'r swm hwn o hyn ymlaen. Dyna gynnydd o fwy na £10 yr wythnos ar gyfartaledd. Dylai roi gwybod i ni ar unwaith, gan fod ganddo hawl i ragor o gymorth ar gyfer ei ofal plant.

### Enghraifft 2

Mae Shahida fel arfer yn talu £300 y mis am ofal plant cymeradwy. Mae ei chostau gofal plant wythnosol cyfartalog, sef £70 yr wythnos, wedi'u cyfrifo fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Lluoswch y swm misol â 12 | £300 x 12 = £3,600 |
| Rhannwch â 52 | £3,600 ÷ 52 = £69.23 |
| Talgrynnwch i fyny i | £70 |

Ar 2 Gorffennaf mae plant Shahida yn dechrau mynd at warchodwr plant newydd sy'n codi £350 y mis. Mae angen iddi gyfrifo'i chostau wythnosol cyfartalog newydd fel hyn:

| | |
|---|---|
| Lluoswch y swm misol â 12 | £350 x 12 = £4,200 |
| Rhannwch â 52 | £4,200 ÷ 52 = £80.77 |
| Talgrynnwch i fyny i | £81 |

Dyna gynnydd o fwy na £10 yr wythnos ar gyfartaledd. Dylai Shahida roi gwybod i ni ar unwaith a hynny o fewn mis, er mwyn sicrhau nad yw ar ei cholled wrth hawlio credydau treth.

### Os bydd y newid yn eich costau gofal plant yn llai na £10 yr wythnos ar gyfartaledd

Nid yw hwn yn newid perthnasol ac nid oes yn rhaid i chi roi gwybod i ni.

**Enghraifft – Newid yn eich costau gofal plant os yw'n llai na £10 yr wythnos ar gyfartaledd**

Roedd costau gofal plant wythnosol cyfartalog Mair yn £50 oherwydd ei bod yn talu'r swm wythnosol sefydlog hwnnw bob amser. Am bythefnos, roedd angen i'w gwarchodwr plant ofalu am ei phlentyn am ragor o oriau, ac fe'i talodd £20 yr wythnos yn ychwanegol. Aeth pethau'n ôl i'r arfer, ac roedd Mair yn talu £50 yr wythnos i'w gwarchodwr plant unwaith eto.

Nid oedd angen i Mair roi gwybod am hyn gan nad yw'n newid perthnasol.

Ni pharodd y cynnydd yn y costau gofal plant gwirioneddol o £10 neu fwy'r wythnos am 4 wythnos yn olynol, roedd yn gymwys i 2 o'r wythnosau'n unig.

## Newidiadau eraill y dylech roi gwybod i ni amdanynt

### Newid eich darparwr gofal plant

Os ydych yn newid eich darparwr gofal plant, rhowch wybod i ni hyd yn oed os ydych yn parhau i dalu'r un swm i'r darparwr newydd, a rhowch y canlynol i ni:

- enw'r darparwr
- dyddiad y newid
- cyfeiriad y darparwr gan gynnwys y cod post
- enw'r corff cofrestru neu gymeradwyo a'r rhif cofrestru, os rhoddwyd un fel rhan o'r broses gofrestru

Rydym yn gwirio gyda darparwyr o bryd i'w gilydd, er mwyn cadarnhau bod manylion hawliadau gofal plant yn gywir. Os nad ydych yn rhoi'r manylion diweddaraf i ni, efallai y byddwn yn cysylltu â'r darparwr anghywir. Os bydd hyn yn digwydd, ac ni allwn wirio manylion eich hawliad, gallem atal eich taliadau credydau treth ar gyfer eich gofal plant.

Rhowch yr wybodaeth gywir i ni am:

- eich darparwr gofal plant
- pryd rydych yn newid eich darparwr gofal plant
- y costau gofal plant rydych yn eu talu

**Cofiwch**

Byddwn yn rhoi'r gorau i'ch talu am eich costau gofal plant os ydych yn stopio bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen mis:

- os ydych chi neu eich partner yn rhoi'r gorau i weithio
- os yw eich oriau gwaith arferol, neu oriau'ch partner, yn mynd yn is nag 16 awr yr wythnos
- os nad ydych chi neu'ch partner mwyach
  - yn glaf mewnol yn yr ysbyty
  - yn y carchar yn bwrw dedfryd o garchar neu ar remánd yn y ddalfa wrth ddisgwyl am dreial neu ddedfryd
  - yn cael budd-dal anabledd - gweler tudalen 4
  - â hawl i Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwr

**Os ydych yn oedi cyn rhoi gwybod i ni, ac rydym yn talu gormod o gredydau treth i chi, bydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl. Efallai y byddwch hefyd yn agored i gosb o hyd at £300 os na fyddwch yn ein hysbysu o'r newid o fewn y terfyn amser.**

## Hawlio Credyd Cynhwysol neu Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth

Bydd eich credydau treth ac unrhyw gymorth a gewch gyda'ch costau gofal plant yn dod i ben os byddwch chi neu'ch partner yn gwneud y canlynol:

- hawlio Credyd Cynhwysol (hyd yn oed os na chaiff eich hawliad ei gymeradwyo)
- gwneud cais llwyddiannus am Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth

## Help i chi

Os oes angen help arnoch:

- ewch i www.gov.uk/taxcredits
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900
- defnyddiwch Relay UK drwy ddeialu 18001 ac yna 0345 300 3900 (os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn)

I weld ein horiau agor, ewch i www.gov.uk/contact-hmrc

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Grŵp Gwasanaeth i Gwsmeriaid CThEF
Ebrill 2023 © Hawlfraint y Goron 2023

CThEF 04/23